Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llety dros dro: Y drws ffrynt i ddyfodol mwy sefydlog

Cyngor Abertawe

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan Adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

## Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Ffeithiau a ffigurau allweddol 6

Ein canfyddiadau 7

Argymhelliad 13

Atodiadau 14

1 Ynglŷn â'r gwaith 15

2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 17

3 Amserlen yr ail-ddylunio 19

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Edrychodd yr archwiliad hwn ar drefniadau Cyngor Abertawe (y Cyngor) i ddangos gwerth am arian trwy ei ddarpariaeth wedi'i hail-ddylunio o lety dros dro.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae cynghorau yng Nghymru yn darparu llety dros dro oherwydd bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn creu dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny, yn enwedig o dan y ddyletswydd llety interim (Adran 68) pan allai rhywun fod yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth. Mae gan y Cyngor ddyletswyddau ehangach hefyd i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau.

3 Tynnodd adroddiad Archwilio Cymru o 2025, Llety dros dro, argyfwng hirdymor? sylw at bwysau cynyddol o ran costau a galw ledled Cymru. Canfu fod cynghorau yn aml yn edrych ar werth am arian ar sail rhy gul. Ceir mwy o bwyslais ar reoli costau byrdymor na chanlyniadau, atal, a pherfformiad system gyfan. Pwysleisiodd yr adroddiad yr angen am lywodraethu, data, monitro, ac ymgysylltu cryfach i sicrhau gwerth am arian tymor hwy.

4 Mae'r Cyngor wedi ail-ddylunio ei ddull o ymdrin â llety dros dro mewn ymateb i alw cynyddol, anghenion mwy cymhleth, a phwysau yn y farchnad dai ehangach. Mae costau cynyddol darparu llety dros dro a galw cynyddol yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian.

5 Yn rhan o hyn, mae hefyd yn bwysig bod trefniadau monitro yn nodi pa un a wnaeth y Cyngor gyflawni ei ganlyniadau a fwriadwyd.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Mae’r Cyngor yn deall galw am lety dros dro yn dda. Mae wedi ail-ddylunio ei ddull o ymdrin â llety dros dro gan ddefnyddio’r ddealltwriaeth honno.

7 Mae’r Cyngor ar y camau cynnar o ddarparu ei ddull newydd sy’n cynnwys datblygu dau gyfleuster llety dros dro. Mae’r cyfleusterau hynny wedi’u lleoli yn Llys Glas a Boutique Student Living (Sun Alliance) yng nghanol y ddinas. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Cyngor wedi agor Llys Glas ond nid Sun Alliance. Mae’r Cyngor yn rhagweld y bydd Sun Alliance yn weithredol ym mis Chwefror 2027.

8 Mae’r Cyngor wedi cyflwyno ei amcanion a’i nodau ar draws sawl cynllun. Mae’r Cyngor yn monitro gweithgarwch yn rheolaidd o dan y cynlluniau hynny. Mae hyn yn cynnig trosolwg da o weithgarwch.

9 Fodd bynnag, nid yw trefniadau’r Cyngor i fonitro gwerth am arian cyffredinol ei ddull newydd wedi’u datblygu’n llawn eto. Mae’n bwriadu datblygu cyfres ehangach o fesurau canlyniadau sy’n canolbwyntio ar bobl, gan gynnwys cyflwyniadau dro ar ôl tro. Byddai’r mesurau hynny yn helpu’r Cyngor i ddatblygu asesiad mwy cyflawn o effaith gyffredinol yr ail-ddyluniad. Byddai hyn hefyd yn hysbysu ei ddealltwriaeth o i ba raddau y mae’n sicrhau gwell gwerth am arian.

## Yr hyn a argymhellir gennym

10 Rydym wedi gwneud un argymhelliad i gynorthwyo gwelliant. Mae’n canolbwyntio ar helpu’r Cyngor i ddeall ei ddarpariaeth o lety dros dro yn well a dangos gwerth am arian yn y ddarpariaeth hon.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

11 Mae'r adran hon yn tynnu sylw at wybodaeth sy'n dangos maint y galw, y gost a'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd a llety dros dro y Cyngor.

- Yn 2025-26, derbyniodd y Cyngor **80** o gyflwyniadau digartrefedd yr wythnos ar gyfartaledd, â brig o 110 ym mis Ionawr.
- Yn 2025-26, cyrhaeddodd nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro frig o **419** ym mis Ionawr 2026, gan ostwng i 389 erbyn diwedd mis Mawrth 2026. O'r 389 hyn, roedd 341 mewn llety Gwely a Brecwast.
- Gostyngodd nifer yr aelwydydd mewn llety Gwely a Brecwast i **283** erbyn diwedd mis Mawrth 2026 ar ôl agor Llys Glas (cynllun llety dros dro'r Cyngor a ddatblygwyd gyda Pobl a Llywodraeth Cymru).
- Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd cyflwyniadau digartrefedd yn y dyfodol yn parhau i fod yn uwch na **4,000** y flwyddyn.
- Cynyddodd gwariant **gros** y Cyngor ar lety Gwely a Brecwast o **£6 miliwn** yn 2024/25 i **£7.2 miliwn** yn 2025/26.

Deddfwriaeth gysylltiedig:

- **Deddf Tai (Cymru) 2014:** y brif gyfraith sy'n cyflwyno dyletswyddau digartrefedd cynghorau yng Nghymru.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** cyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor, atal, a gweithio cydgysylltiedig.
- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016:** cyfraith a newidiodd drefniadau tai yng Nghymru ac sydd â'r nod o wella sut mae tai yn cael eu darparu a'u rheoli.
- **Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026:** deddfwriaeth newydd â'r bwriad o gryfhau gwaith atal digartrefedd ac ehangu mynediad at gymorth a thai.

# Ein canfyddiadau

## Dealltwriaeth

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd


12 Roedd y Cyngor yn deall yr angen i ail-ddylunio ei ddull o ddarparu llety dros dro. Roedd yn defnyddio data yn dangos galw cynyddol am lety dros dro oherwydd ffactorau a oedd yn cynnwys:

- Y ffaith fod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn is na chyfradd y farchnad ar gyfer rhenti;
- Lefelau tlodi cynyddol a'r argyfwng costau byw;
- Opsiynau llety camu ymlaen cyfyngedig;
- Niferoedd cynyddol o bobl yn gadael y carchar;
- Colli llety gyda ffrindiau neu deulu;
- Anghenion cynyddol gymhleth; a
- Digartrefedd cudd.

13 Roedd y Cyngor o dan bwysau parhaus a sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: galw am lety dros dro yn Abertawe o'i gymharu â llety hirdymor addas sydd ar gael rhwng Ionawr 2024 a Mawrth 2026**

Mae'r graff isod yn dangos cyfanswm y bobl ddigartref mewn llety dros dro dros amser o'i gymharu â nifer y bobl a symudwyd i lety hirdymor addas.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

14 Fe wnaeth y Cyngor ail-ddylunio ei ddarpariaeth mewn ymateb i alw cynyddol a'r ffactorau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd. Dywedwyd wrthym bod y ffactorau hynny yn cynnwys:

- newid mewn deddfwriaeth i angen blaenoriaeth;
- argyfwng costau byw; a
- chynllun rhyddhau cynnar gan y Swyddfa Gartref.

Roedd wedi cydnabod nad oedd ei ddull blaenorol yn gynaliadwy yn ariannol. Roedd hyn wedi cynnwys defnydd cynyddol o lety Gwely a Brecwast ers pandemig Covid-19 yn 2020. Roedd y Cyngor wedi bwriadu y byddai'n defnyddio llety Gwely a Brecwast am gyfnod byr. Ond oherwydd diffyg llety hirdymor amgen a ffactorau eraill, roedd hyd cyfartalog arhosiad mewn llety Gwely a Brecwast wedi cynyddu'n sylweddol.

15 Rhoddodd dealltwriaeth dda o brif ysgogiadau galw sylfaen gadarn i'r Cyngor ar gyfer ail-ddylunio ei ddarpariaeth llety dros dro.

## Eglurder cynllunio

### Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n eglur sut y bydd yn mesur llwyddiant

16 Mae'r Cyngor yn eglur ynghylch ei nod cyffredinol o helpu i wneud digartrefedd yn 'rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd' yn unol ag uchelgeisiau cenedlaethol.[1] Fel y dangosir yn y llinell amser yn **Atodiad 3**, datblygwyd nodau'r Cyngor yn ymwneud â'r ail-ddylunio dros amser ac fe'u cyflwynwyd ar draws amrywiaeth o strategaethau, achosion busnes, penderfyniadau Cabinet, a dogfennau eraill. Mae'r dull ailadroddol hwn yn ei gwneud yn anoddach i ddeall y mesurau llwyddiant cyffredinol.

17 Bu pwyslais y Cyngor yn bennaf ar osgoi costau Gwely a Brecwast mwy byrdymor drwy agor ei ddarpariaeth ei hun. Nid yw wedi cyflwyno'n eglur sut y bydd yn defnyddio ei ddata presennol i asesu ansawdd, canlyniadau a mesurau sy'n canolbwyntio ar bobl ochr yn ochr ag arbedion osgoi costau dros y tymor canolig i'r tymor hwy. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai ddatblygu mesurau llwyddiant pellach i'w helpu i ddeall effaith ei ddull yn well. Byddai gwneud hyn yn helpu'r Cyngor i ddangos a yw'r ail-ddyluniad yn gwella canlyniadau i bobl ac yn sicrhau gwerth am arian yn gyffredinol.

[1] Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026, Llywodraeth Cymru, 2021

## Arddangosyn 2: Yr hyn yr ydym yn ei olygu gan werth am arian

Mae a wnelo gwerth am arian â'r cwestiwn a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r deilliannau bwriadedig am y pris gorau. Cyfeirir at hyn weithiau hefyd fel 'cost-effeithiolrwydd'. Mae gwerth am arian yn gysylltiedig fel arfer â thair elfen, sef darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel:

- Darbodaeth – Cael y fargen iawn – sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, i helpu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig, am y gost isaf posibl.
- Effeithlonrwydd – Gwneud pethau'n iawn – gwneud y gorau o'r mewnbynnau i gynhyrchu allbynnau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig.
- Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn – cyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy.

Felly mae a wnelo gwerth am arian nid dim ond â chostau, ond ag ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir am yr arian a gaiff ei wario. Mae pobl sy'n byw mewn llety dros dro yn aml mewn sefyllfa agored i niwed ac mae arnynt angen cymorth i'w helpu i symud i mewn i lety sefydlog a phriodol.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, *Llety dros dro, argyfwng hirdymor?*, 2025

18 Fe wnaeth y Cyngor reoli rhai risgiau i'r ail-ddyluniad o lety dros dro. Mae wedi nodi risgiau gan gynnwys pwysau ariannu, galw uchel, ac opsiynau camu ymlaen cyfyngedig, ac mae wedi sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru ac wedi recriwtio staff. Mae'r camau hynny wedi cefnogi darpariaeth yr ail-ddyluniad.

19 Fe wnaeth y Cyngor hefyd gynllunio ar gyfer rhai newidiadau tymor hwy. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno'n briodol defnyddiau amgen yn y dyfodol ar gyfer yr adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llety dros dro ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor wedi ystyried y defnydd tymor hwy o'r adeiladau hynny.

20 Yn bwysig, fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi cynllunio'n eglur sut y bydd yn mynd i'r afael ag opsiynau camu ymlaen cyfyngedig. Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai pobl aros mewn llety dros dro yn fwy nag y bwriadwyd heb lety camu ymlaen digonol, gan rwystro'r llwybr a chynyddu'r perygl o ddibyniaeth o'r newydd ar lety Gwely a Brecwast. Mae hyn yn cynyddu'r perygl na fydd yr ail-ddyluniad yn cyflawni ei ganlyniadau a fwriadwyd.

## Gwybod pa un a yw'n cyflawni ei ganlyniadau a fwriadwyd

### Nid oes gan y Cyngor drosolwg strategol o ganlyniadau gwell na gwerth am arian

21 Mae'r Cyngor yn defnyddio ei Fframwaith Canlyniadau Grant Cymorth Tai i fonitro gweithgarwch a galw, gan gynnwys nifer yr aelwydydd sydd mewn llety dros dro a'r amser y mae pobl yn ei dreulio mewn llety o'r fath. Mae hefyd yn nodi canlyniadau byrdymor. Er bod y data hyn yn cynnig darlun eglur o weithgarwch, nid yw'n dangos yn llawn pa un a yw canlyniadau pobl yn gwella dros y tymor canolig i'r tymor hwy.

22 Nid yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r data sydd ganddo ar gael i ddeall effaith ei newid. Mae ei adroddiadau yn tynnu sylw at y gostyngiad i'r defnydd o lety Gwely a Brecwast chostau is ar ôl iddo agor Llys Glas yn ystod gwanwyn 2026. Mae'r Cyngor hefyd yn meddu ar ddata ynghylch:

- niferoedd (aelwydydd/pobl mewn llety dros dro);
- llifoedd (lleoliadau a chamu ymlaen);
- hyd (hyd arhosiad); a
- math o lety (yn enwedig Gwely a Brecwast).

23 Er bod y Cyngor yn meddu ar y data hyn, gallai ddatblygu mesurau canlyniadau sy'n canolbwyntio ar bobl pellach i asesu effaith ehangach yr ail-ddylunio. Byddai'r datblygiad hwnnw yn ei helpu i ddangos sut mae'n helpu i wella sefydlogrwydd tai hirdymor a llesiant pobl trwy ei lety dros dro. Trwy wneud hyn, byddai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i ddeall sut mae ei ailddyluniad yn ei helpu i wneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

24 Er bod y Cyngor yn casglu ac yn defnyddio ei ddata tueddiadau ei hun yn dda, mae'n defnyddio gwybodaeth cymharu a meincnodi ehangach yn llai rheolaidd. Mae'n cyfrannu at y setiau data cenedlaethol ar ddigartrefedd. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor gryfhau ei ddealltwriaeth strategol o berfformiad drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael. Er enghraifft, ei ddealltwriaeth o gyflwyniadau dro ar ôl tro. Bydd gwneud hyn yn helpu'r Cyngor i ddangos bod ei ddull yn cyfrannu at wneud digartrefedd yn 'rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd'.

# Argymhelliad

25 Mae ein hargymhelliad yn adlewyrchu'r themâu gwelliant a nodwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol ar lety dros dro. Mae'n canolbwyntio ar ehangu diffiniad a dealltwriaeth y Cyngor o werth am arian trwy ddangos canlyniadau.

**A1 Datblygu a gweithredu fframwaith gwerth am arian a chanlyniadau**

Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu fframwaith eglur i grynhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno i ddeall pa un a yw ei fodd o ailddylunio llety dros dro yn sicrhau gwerth am arian. Dylai hyn gynnwys:

- canlyniadau ariannol, gwasanaeth, ac sy'n canolbwyntio ar bobl diffiniedig (**paragraffau 16, 17, 21, 22 a 23**);
- llinellau sylfaen, targedau, ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer pob mesur (**paragraffau 16 a 17**);
- cyfres gytbwys o ddangosyddion yn cwmpasu cost, ansawdd, a chanlyniadau (er enghraifft, hyd arhosiad, camu ymlaen, cyflwyniadau digartrefedd dro ar ôl tro) (**paragraffau 17, 21, 22, 23 a 24**);
- adrodd rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y mesurau hyn i swyddogion uwch ac aelodau (**paragraffau 21, 22, 23 a 24**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'r gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Rhoddodd yr archwiliad sylw i drefniadau'r Cyngor ar gyfer asesu gwerth am arian yn ei ddarpariaeth o lety dros dro. Archwiliodd sut mae'r Cyngor yn cynllunio, yn darparu, ac yn monitro'r trefniadau hyn. Ni wnaethom asesu effeithiolrwydd ailddylunio llety dros dro.

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn gennym rhwng mis Mawrth a mis Mai 2026.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiynau canlynol:

- A oedd y Cyngor yn deall yr hyn yr oedd angen iddo ei wneud wrth ailddylunio ei ddarpariaeth o lety dros dro i sicrhau gwell gwerth am arian?
- A oes gan y Cyngor gynllun gweithredu eglur?
- A yw'r Cyngor yn gwybod a yw'n cyflawni ei ganlyniadau a fwriadwyd?

### Meini prawf

Mae ein meini prawf yn cyflwyno sut mae da yn edrych. Hysbyswyd y meini prawf hyn drwy ein gwybodaeth archwilio gyfunol. Maent yn canolbwyntio ar gyfuniad o'r egwyddorion a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dangosyddion yn ymwneud â gwerth am arian.

## Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad hwn y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau;
- cyfweld â swyddogion a chynghorwyr perthnasol; a
- dadansoddi data cyhoeddedig ac a ddelir gan y Cyngor perthnasol.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Llety Gwely a Brecwast** | Math o lety dros dro, a ddefnyddir yn aml mewn argyfyngau, lle mae pobl yn aros mewn ystafelloedd o fath tŷ llety lle mae lle a chyfleusterau yn brin. |
| **Meincnodi** | Cymharu perfformiad, costau neu ganlyniadau â sefydliadau eraill neu safonau cydnabyddedig i ddeall pa mor dda mae gwasanaeth yn gweithio. |
| **Anghenion cymhleth** | Sefyllfaoedd lle mae unigolyn angen cymorth gyda phroblemau lluosog ar yr un pryd, fel problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, trawma, neu iechyd corfforol. |
| **Osgoi costau** | Arian nad oes yn rhaid i'r Cyngor ei wario gan fod camau a gymerwyd yn gynharach yn lleihau'r angen am wasanaethau drytach yn ddiweddarach. |
| **Digartrefedd cudd** | Pobl nad ydynt yn ymddangos mewn ffigurau digartrefedd swyddogol ond nad oes ganddynt gartref sefydlog neu addas, fel pobl sy'n syrffio soffas neu'n aros dros dro gyda ffrindiau neu deulu. |
| **Cyflwyniad digartrefedd** | Pan fydd unigolyn neu aelwyd yn cysylltu â'r Cyngor am gymorth gan eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. |
| **Lwfans Tai Lleol** | Y budd-dal tai mwyaf posibl y gellir ei dalu fel rheol am lety rhent preifat mewn ardal leol, yn seiliedig ar lefelau rhent y farchnad a maint yr aelwyd. |

| | |
|---|---|
| **Llety camu ymlaen** | Tai tymor hwy y gall pobl symud i mewn iddynt ar ôl gadael llety dros dro. |
| **Canlyniadau** | Y canlyniadau sy'n cael eu sicrhau i bobl a gwasanaethau, fel sefydlogrwydd tai, diogelwch neu lesiant gwell. |
| **Canlyniadau sy'n canolbwyntio ar bobl** | Canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr un sy'n bwysig i'r unigolyn, fel teimlo'n ddiogel, bod â thŷ sefydlog, a gallu cael gafael ar gymorth. |
| **Atal** | Camau i atal digartrefedd ar gamau cynradd, eilaidd a thrydyddol. Mae'n golygu ei atal cyn iddo ddigwydd, neu ymateb yn gynnar pan fydd rhywun mewn perygl, a helpu i'w atal rhag digwydd eto. |
| **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** | Cynllun y Cyngor ar gyfer symud oddi wrth arosiadau maith mewn llety dros dro a helpu pobl i mewn i gartref sefydlog cyn gynted â phosibl. |
| **Pwysau system** | Problemau ehangach sy'n effeithio ar y gwasanaeth, fel galw uchel, diffyg tai fforddiadwy, cyfyngiadau ariannu, neu gymhlethdod angen cynyddol. |
| **Llety dros dro** | Tai byrdymor a ddarperir i bobl nad oes ganddynt gartref addas ac sydd angen rhywle diogel i aros tra bod opsiynau tai tymor hwy yn cael eu trefnu. |
| **Llwybr llety dros dro** | Proses y Cyngor ar gyfer penderfynu sut y mae pobl yn cael ei hatgyfeirio i lety dros dro a'u cefnogi drwyddo. |
| **Gwerth am arian** | Gwneud y defnydd gorau o arian ac adnoddau i sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng cost, ansawdd, a chanlyniadau. Gweler **Arddangosyn 2**. |

# 3 Amserlen yr ail-ddylunio

| Pryd | Yr hyn a ddigwyddodd |
|---|---|
| **Hydref 2021** | Fe wnaeth y Cyngor gomisiynu Adolygiad Meddwl Systemau chwe diwrnod o lety â chymorth dros dro i bobl ddigartref (wedi'i hwyluso gan Vanguard) i nodi gwelliannau. |
| **Dechrau 2022** | Fe wnaeth grŵp prosiect gyfarfod i ddylunio llwybr atgyfeirio canolog, a chytunwyd y dylid cyfeirio at hwn fel y Llwybr Llety Dros Dro (TAP). |
| **Ebrill 2022** | Cyhoeddi'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cwmpasu Ebrill 2022–Mawrth 2027. |
| **Hydref 2022 (dechrau'r cynllun peilot)** | Dechreuodd cynllun peilot y TAP. |
| **Ionawr 2023** | Fe wnaeth dadansoddiad ôl-gynllun peilot alluogi rhanddeiliaid i gytuno i barhau â'r TAP, yn dilyn adolygiad o fesurau llwyddiant y cynllun peilot. |
| **16 Tachwedd 2023 (adeg penderfyniad y Cabinet)** | Y Cabinet yn cymeradwyo adroddiad yn cynnig bod y Cyngor yn datblygu ac yn gweithredu Llys Glas fel Prosiect Llety â Chymorth Dros Dro. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud drwy'r TAP. |
| **18 Rhagfyr 2023** | Fe wnaeth adroddiad y Grŵp Llywio ar Dai gyflwyno mesurau brys dros dro oherwydd pwysau capasiti, gan gynnwys angen wedi'i ddatgan i gyflwyno darpariaeth Llys Glas cyn gynted â phosibl. |

| Pryd | Yr hyn a ddigwyddodd |
|---|---|
| **15–17 Medi 2025** | Ffurflen sgrinio Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Cyfnod 2 (wedi'i llofnodi/dyddio) yn disgrifio pwysau, yn cysylltu camau gweithredu (cynyddu'r ddarpariaeth o lety dros dro, datblygiad y TAP, llety parhaol) ac yn datgan y disgwyliwyd i Lys Glas agor ddiwedd hydref 25. |
| **18 Tachwedd 2025 (Craffu)** | Adroddiad cynnydd craffu yn datgan y bu'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Pobl i ddatblygu Llys Glas. Mae'r adroddiad yn rhagweld bod Llys Glas yn 'debygol' o fod yn weithredol o ddechrau mis Rhagfyr 2025. |
| **25 Mawrth 2026** | Cofnodion Cyfarfod Cell Cydgysylltu Gwasanaethau Digartrefedd yn datgan bod ffigurau wedi cael eu heffeithio gan agor Llys Glas. |
| **Ebrill 2026** | Daeth cynllun llety dros dro Llys Glas yn gwbl weithredol. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.